**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad – Yr Amgylchedd Naturiol

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 25 Medi 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | D H Hopkins | M H Jones |
| P K Jones | I E Mann | C Richards |
| B J Rowlands | M Sherwood | W G Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Bethan Hopkins | Scrutiny Officer |
| Paul Meller | Strategic Planning and Natural Environment Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim

---

1 **Ethol Cynullydd**

- Etholwyd y Cynghorydd Peter Jones yn gynullydd ar gyfer y flwyddyn

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

- Y Cyng. Mary Sherwood - Aelod o'r RSPB, Greenpeace, Coed Cadw
- Y Cyng. Wendy Fitzgerald - Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Penllergaer
- Y Cyng. Peter Jones - Aelod o'r RSPB, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear
- Y Cyng. Brigitte Rowlands - Ysgrifenyddes Cymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg

3 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

- Dim

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

5 **Cylch gorchwyl.**

- Cytunodd y panel ar y Cylch Gorchwyl

6 **Yr Amgylchedd Naturiol - Trosolwg**

- Rhoddodd Deb Hill gyflwyniad i'r panel.
- Roedd y prif ffocws ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros y 3 blynedd diwethaf, ond mae cyngor Abertawe wedi bod yn gwneud gwaith sy'n ymwneud â'r amgylchedd ar gyfer yr 50 i 60 mlynedd diwethaf.
- Mae 80% o Abertawe yn lle gwyrdd ac mae'n amrywiol iawn - ceir coetiroedd, gwlyptiroedd, glaswelltiroedd, rhosydd, dolydd, ardaloedd morol, arfordir, tir amaeth, parciau trefol, gwarchodfeydd natur a choridorau bywyd gwyllt.
- Mae gwerth ecolegol sylweddol i dros 50% o'r sir.
- Mae'r amgylchedd yn cael ei warchod drwy amrywiaeth o ddynodiadau safle.
- Mae manteision bioamrywiaeth ar gyfer lles yn cael eu cydnabod yn fwy eang.
- Cydnabyddir gwasanaethau ecosystemau a'u rôl
- Mae colli bioamrywiaeth a difodiant rhywogaethau'n her ac yn risg - mae angen cynyddu ymwybyddiaeth a rheoli tir yn gynaliadwy
- Mae'r risgiau'n lleol ac yn genedlaethol
- Ceir fframweithiau deddfwriaeth amrywiol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth
- Deddfwriaeth gyfredol - mae nod Cymru gydnerth yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â chadernid ecolegol. Hefyd Ddeddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Mae cysylltedd rhwng safleoedd yn hanfodol fel y gall bioamrywiaeth symud lle bynnag y bo modd
- Dylai ystyriaeth am fioamrywiaeth gael ei gwreiddio ar gam cynnar ac mae pawb yn gyfrifol amdani
- Fel cyngor, mae angen i ni gyflwyno cynllun Adran 6 a chyflwyno cynllun ar gynnydd bob 3 blynedd yn unol â gofynion deddfwriaethol
- Mae Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys amcan Gweithio gyda Natur ac mae gennym hefyd y Flaenoriaeth Gorfforaethol bioamrywiaeth newydd yn y Cynllun Corfforaethol
- Mae'r tîm wedi bod yn mapio defnydd tir - cysylltiadau â Chanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBREC) sy'n coladu ac yn rhaeadru gwybodaeth am fioamrywiaeth.
- Mae'r tîm hefyd wedi bod yn mapio wardiau i nodi ardaloedd o arwyddocâd ecolegol etc. ym mhob ward a bydd yn cynyddu hyn fel y bydd adnoddau'n caniatáu
- Mae'r cyngor yn berchen ar lawer o dir yn Abertawe (e.e. parciau, safleoedd addysg, ystadau, priffyrdd, mynwentydd etc) ac mae ganddo ddyletswydd i'w rheoli'n gynaliadwy
- Mae'r tîm ar hyn o bryd yn llunio strategaeth isadeiledd gwyrdd sy'n edrych ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur

- Mae gan bob tîm - digwyddiadau, caffael, twristiaeth, adfywio, priffyrdd, tai, addysg, ystadau - rannau pwysig i'w chwarae mewn perthynas â bioamrywiaeth
- Rhaid iddynt gefnogi dulliau i gynnwys y gymuned a gwirfoddolwyr e.e. cyfeillion parciau a gwirfoddolwyr bywyd gwyllt etc
- Rhaid edrych ar y camau nesaf - sicrhau rhagor o adnoddau, cynyddu ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn allanol a datblygu cynlluniau ac adroddiadau
- Diolchodd Aelod y Cabinet i Deb a'r tîm am yr holl waith gwych maent wedi'i wneud. Mae'r tîm yn fach ac mae angen rhagor o gefnogaeth arno. Mae angen cyfrifoldeb a rennir ar draws y cyngor cyfan ac mae angen rhoi hyfforddiant ar waith fel bod bioamrywiaeth, fel diogelu, yn fusnes i bawb.
- Gall Cynghorau Tref a Chymuned helpu'n fawr gyda'r materion hyn oherwydd gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr - mae gan lawer eisoes ymwybyddiaeth wych o fioamrywiaeth ond gallent ehangu hyfforddiant iddynt a gweithio gyda'i gilydd.
- Trafodwyd materion cynllunio - cadarnhawyd bod y berthynas â'r Tîm Cadwraeth Natur a'r adran Gynllunio'n rhagorol, ond weithiau mae materion yn codi y tu allan i'r broses gynllunio cyn neu ar ôl caniatâd cynllunio e.e. Gorchmynion Cadw Coed yn cael eu hanwybyddu neu dir yn cael ei glirio cyn cael caniatâd cynllunio a thirfesur
- Diffyg staff nid diffyg ewyllys yw'r broblem o ran gorfodi cynllunio
- Mae gorfodi'n broblem fawr. Mae angen cefnogaeth ychwanegol i orfodi hawliau natur gan fod diffyg staff ar hyn o bryd o ran gorfodi ecoleg cynllunio.
- Mae gwrthdaro mewnol yn parhau - gwerth ecolegol neu werth ariannol lle gwyrdd a bioamrywiaeth
- Mae angen newid sylfaenol mewn diwylliant
- Trafodwyd mawn a'i rôl wrth amsugno carbon a'i werth
- Mae campws Townhill yn enghraifft wych o ddatblygiad gwyrdd
- Lle mae datblygiad yn effeithio ar dir amaeth etc. dylid ceisio cadw cynifer o nodweddion naturiol â phosib
- Mae tir comin hefyd yn bwysig iawn
- Cafwyd peth trafodaeth ynghylch cytundebau adran 106 - dylent fod yn gyfarwydd â 'gwella' bioamrywiaeth - bydd y drafodaeth yn parhau am addasrwydd y symiau y gofynnwyd amdanynt
- Mae angen cydnabod 'gwerth economaidd' bioamrywiaeth - er enghraifft, gellir prisio coed i atal llifogydd yn erbyn prosiectau peirianneg caled a gwella bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd
- Er gwaethaf rhywfaint o gyllid dros dro rhan-amser ar gyfer ecolegydd cynllunio, nid oes arian gan y cyngor ar gyfer y rôl hon - mae'n seiliedig ar grantiau
- Datganodd y cyngor argyfwng yn yr hinsawdd, ond ni ddyrannwyd cyllid i'r 2 swydd sy'n ofynnol - Ecolegwyr Cynllunio a Swyddog Adran 6 sy'n swyddi hanfodol
- Nid oes gan gynghorau lleol ddigon o staff ac adnoddau i wneud y gwaith hanfodol hwn. Mae timau am wneud gwaith ar y materion hyn yn lleol, ond nid oes ganddynt y gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Ganolog neu Lywodraeth Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth - caiff llythyr ei ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i amlygu difrifoldeb y sefyllfa
- Mae peth gwaith prosiect yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys 'Ein Natur, Ein Dyfodol' a gwirfoddolwyr bywyd gwyllt

- Mae rhai eglwysi wedi ymrwymo i fod yn 'Eco-eglwysi'
- Ceir peth gwrthwynebiad yn fewnol i newid diwylliant ar y mater hwn - mae angen i'r holl gyfarwyddwyr wreiddio'r ddyletswydd hon yn eu gwaith
- Mae angen mwy o gosbau ar gyfer cyrff cyhoeddus pan na chaiff y ddyletswydd hon ei chyflawni, ac mae angen lobïo am newid ar y mater hwn
- Mae Cyngor Abertawe yn gyngor sy'n ymwneud yn fawr â bioamrywiaeth ac mae am gael mwy o gyllid i wneud mwy
- Ni ellir rhoi blaenoriaeth mwyach i'r economi dros ecoleg
- Ceir problemau lleol o ran sbwriel a phobl ifanc - os nad yw'r amgylchedd lleol yn cael ei barchu, yna ni fydd yr amgylchedd byd-eang yn cael ei barchu
- Dylai fod gan ysgolion bolisi taflu sbwriel - mae ysgolion fel arfer yn gwbl ymrwymedig i faterion ecolegol
- Mae angen mwy o finiau ailgylchu yn Abertawe i helpu gyda'r mater hwn
- Gellid edrych ar wneud mwy o ran gwaith bioamrywiaeth rhanbarthol, gan gysylltu â phrosiectau gweithio rhanbarthol
- Mae strategaeth isadeiledd gwyrdd wedi'i datblygu ar gyfer canol y ddinas i ddylanwadu ar newid
- Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgynghorydd IG i roi'r polisi ynghyd
- Ymgysylltir â phobl ar y stryd i gael eu barn
- Bydd ymgynghoriad ar y weledigaeth newydd hon - bydd y panel yn rhan o hyn
- Rydym am i Abertawe fod yn wyrddach a chefnogi bioamrywiaeth drwy:
    1. Arwain drwy esiampl a llywodraethu
    2. Cefnogi dysgu i wella sgiliau a gwybodaeth
    3. Archwilio sut i gynnal gwaith
- Dosbarthu'r ddogfen Isadeiledd Gwyrdd i'r panel

## 7 **Cynllun Gwaith 2019/20**

- Cyfnewidiwyd rhai eitemau yn y cynllun gwaith
- Bydd 'Rheoli Chwyn' yn cymryd lle'r eitem ar glyffosad
- Rhaid gweld a oes modd archwilio i Lygredd Aer drwy adroddiadau yn hytrach nag fel eitem craffu
- Edrychir ar 5G fel rhan o sesiwn holi ac ateb Pwyllgor y Rhaglen Graffu gydag Aelod perthnasol y Cabinet

The meeting ended at 11.55 am

**Cadeirydd**